

## CYDBWYLLGOR CRAFFU

DYDD MERCHER, 4 GORFFENNAF 2018

Yn  
bressenol: Cynghorydd (Cadeirydd)

Cynghorwyr Ahmed, Bridgeman, Carter, Carol Cobert, Rebecca Crump, De'Ath, Karen Dell'Armi, Goddard, Jenkins, Lent, McGarry, Molik, Phillips a/ac Singh

### 1 : CADEIRYDD

CYTUNWYD - penodi'r Cynghorydd Bridgeman yn Gadeirydd y Cydbwyllgor.

Croesawodd y Cadeirydd Gary Jones fel Pennaeth newydd y Gwasanaethau Democrataidd.

### 2 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Philippa Hill-John, Hill-John, Heather Joyce, Linda Morgan, Jim Murphy a Rhys Taylor.

Derbyniwyd ymddiheuriadau hefyd gan Patricia Arlotte.

### 3 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddaeth dim i law.

### 4 : ADRODDIAD BLYNYDDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL AWDURDOD LLEOL 2017/18

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Susan Elsmore, yr Aelod Cabient dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant, y Cynghorydd Graham Hinchey, yr Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd, Sarah McGill (Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pobl a Chymunedau) ac Irfan Alam (Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gwasanaethau Plant) i'r cyfarfod.

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau fod y cyfarfod yn cael ei gynnal i alluogi'r Aelodau i graffu ar yr Adroddiad Blynyddol drafft Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol a ddylai roi darlun clir o effeithiolrwydd Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol y Cyngor. Byddai'r Adroddiad yn cael ei ystyried gan y Cabinet ar 12 Gorffennaf 2018.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau Cabinet i wneud datganiad.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant ei bod hi'n falch iawn i gyflwyno'r 9fed Adroddiad Blynyddol, oedd yr ail adroddiad ers gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. O bersbectif y Gwasanaethau Oedolion, mae'r Ddeddf wedi ysgogi'r Ddeddf o ran gwneud llawer o

gynnydd, mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu hynny a hefyd sut mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn integreiddio ym mhob gwasanaeth gyda chanolbwynt ar gael teuluoedd ac unigolion yn annibynnol am hirach yn eu cartrefi.

Roedd yr Aelod Cabinet yn falch o ddweud bod yr agenda ataliol yn cyflawni'r canlyniadau a ragwelwyd pan gafodd y Gwasanaeth Byw'n Annibynnol ei sefydlu.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y gwasanaeth wedi gallu lleihau nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo ofal am resymau gofal cymdeithasol o 123 yn 2016/17 i 110 yn 2017/18. Mae gwaith wedi'i wneud hyd yn hyn yn ei wneud yn haws meddwl am yr hyn sy'n bwysig iawn i bobl sy'n gadael yr ysbyty.

Mae'r gwaith o ddiogelu oedolion wedi'i gryfhau'n fwy trwy wella effeithiolrwydd y Byrddau Diogelu Rhanbarthol a'r systemau diogelu.

Mae statws Dinas Deall Demensia yn mynd yn ei flaen, gyda chynlluniau yn y flwyddyn i ddod i gadarnhau'r statws.

Mae'r gwasanaeth bellach yn well gyda bodloni anghenion cymhleth pobl hŷn a phobl sydd ag anabledau dysgu yn eu cymuned leol trwy ddatblygu Cyfleoedd Dydd sydd wedi galluogi mwy o bobl i aros mor annibynnol â phosibl yn eu cartrefi eu hunain trwy agwedd ailalluogi at ofal a chymorth; cwblhawyd Canolfan Dydd Minehead Road y llynedd ac mae gwaith ar Grand Avenue wedi dechrau a chaiff ei gwblhau yn fuan.

Hwylodd y Bwrdd gwella Strategol y Gwasanaethau Bwrdd adolygiad o'r brif flaenoriaethau er mwyn gwella cynaliadwyedd ariannol ac effeithiolrwydd gwasanaeth, sy'n ganlyniad gwych o ran rheoli'r gyllideb.

Yn olaf, roedd yr Aeloda Cabinet am dalu teyrnged i waith Tony Young, cyfarwyddwr blaenorol y Gwasanaethau Cymdeithasol, Amanda Phillips, cyfarwyddwr cynorthwyol blaenorol y Gwasanaethau Oedolion a Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau am y gwaith helaeth sydd wedi'i wneud yn y gwasanaeth. Roedd yr Aelod Cabinet yn edrych ymlaen at groesawu'r cyfarwyddwr newydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn yr wythnos i ddod.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd ei fod hefyd am gydnabod gwaith Tony Young dros y blynyddoedd diweddar a hefyd y Cynghorydd Sue Lent fel yr Aelod Cabinet blaenorol oedd yn gyfrifiol am y maes hwn. Roedd y gwasanaeth mewn sefyllfa lawer gwell ac yn gadarnhaol o ran nodi blychau a mynd i'r afael â nhw.

Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'r Aelodau'n ymwybodol bod poblogaeth sy'n heneiddio a nifer cynyddol o blant yn derbyn gofal, a hon yw'r sefyllfa sy'n creu pwysau ledled Cymru.

Amlinellwyd cyflawniadau nodedig y gwasanaethau gan gynnwys MASH, Drws Ffrynt Cymorth Cynnar ac Arwyddion Diogelwch. Nodwyd nad oes datrysiad cyflym ac mae angen amser ar yr ymyriadau hyn i ymwreiddio.

Dywedodd yr Aelod Cabinet ei bod yn bwysig parhau i fuddsoddi yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, i wneud y gorau i blant yng Nghaerdydd. Gyda hyn mewn cof, Cartrefi

i Blant, Gofal Maeth a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant fyddai'r canolbwynt yn y dyfodol.

Roedd yr Aelod Cabinet yn falch bod yr adroddiad yn dangos y gweithdroad o 2012 i 2017 gan ei fod wedi siarad â nifer o defnyddwyr gwasanaeth a staff yn y 14 mis diwethaf ac wedi'i chael yn galonogol bod llawer o adborth cadarnhaol wedi'i gael ar sut mae'r Gwasanaethau Plant wedi bod mor gefnogol ac wedi canolbwyntio ar yr hyn sydd orau i'r plant, ac mae'r adroddiad yn adlewyrchu hynny.

Siaradodd y Cyfarwyddwr Pobl a Chymunedau â Pwyllgor gan ddweud y byddai fel arfer yn rhoi cyflwyniad ar yr adroddiad ond eleni roedd yn sefyllfa ddiddorol gan mai adroddiad cyfarwyddwr blaenorol y Gwasanaethau Cymdeithasol oedd ef. Credodd ei fod yn adroddiad sydd wedi'i ysgrifennu'n dda ac sy'n gynhwysfawr, sy'n cynnwys gwybodaeth hynod ddiddorol sy'n rhoi seilwaith clir i adeiladu canolbwynt a themâu arno yn y flwyddyn i ddod. Ataliaeth fyddai un o'r themâu hynny ac mae canolbwynt ar ardaloedd lleol yn dechrau dod i'r amlwg. Byddai hefyd ganolbwynt ar agwedd sy'n canolbwyntio ar y person, agwedd ar sail cryfderau ac integreiddio gwasanaethau ar gyfer anghenion yr unigolion.

Roedd y Cyfarwyddwr am dalu teyrnged i Kim Brown am y swm enfawr o waith mae hi wedi'i gyfrannu at yr adroddiad.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

Nododd yr Aelodau fod gan y Gwasanaethau Oedolion gyllideb dros ben a'u bod yn edrych ar eu cyllideb bob mis a gofynnon i'r Gwasanaeth Plant wneud yr un peth. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y pwysau yn y gwasanaethau plant yn cynnwys costau lleoliadau ledled y sir sy'n gwaethygu, dibyniaeth ar staff asiantaeth a gwaith recriwtio a chadw; roedd cynllun i gynyddu lleoliadau yng Nghaerdydd ac i ddod â phlant yn ôl i'r Sir os yn briodol, byddai hyn, ynghyd â chynllun i gynyddu lleoedd maethu yn mantoli'r diffyg, gobeithio. Ychwanegodd yr Aeloda Cabinet y cytunwyd ar 11.88% yn ychwanegol i'r Gwasanaeth Plant i gydnabod y pwysau yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor. Roedd tua 300 yn fwy o blant sy'n derbyn gofal yng Nghaerdydd nag yn 2014, oedd yn gynydd uwch na'r cynnydd yn nhwf y boblogaeth, ond roedd Gwasanaethau Plant Caerdydd ar y taflwybr iawn ac y gobaith oedd gallu mantoli'r diffyg yn y cwpl o flynyddoedd nesaf a byddai cynnydd o 1 i 6 Chartref i Blant yn y 18 mis nesaf.

Roedd yr Aelodau am ddiolch i Tony Young ac Amanda Phillips am eu holl waith caled. Gofynnodd yr Aelodau am Gynllunio'r Gweithlu, pa strategaethau newydd sydd ar waith i berswadio pobl i aros yng Nghaerdydd neu i'w perswadio i ddod. Dywedodd yr Aelod Cabinet ei od yn bwysig tyfu eich gweithlu eich hun ac annog pobl i ddatblygu mewn swyddi gwerth chweil sy'n gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl. Credodd fod pob yn hapusach yn gweithio yng Nghaerdydd nawr nag yr oeddent yn flaenorol gan fod nifer y bobl sy'n gadael Caerdydd wedi lleihau'n sylweddol. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol ar hyn o bryd i ofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol oedd yn glir ar y cynnig i staff, gan gynnwys tîm rheoli cadarn a pholisi goruchwylio clir. Esboniodd yr Aelod Cabinet fod yr hysbysebion yn dechrau'r wythnos hon ac y byddai'r adrodd yn ôl ar ymatebion wedi'u dderbyn. Ychwanegodd fod y Prifysgolion yn dweud nad ydynt yn cael ymgeiswyr felly mae stondinau Cyngor Caerdydd mewn Prifysgolion,

Ffeiriau Graddedigion a digwyddiadau recriwtio ac mae Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn rhan o'r gwaith yma hefyd.

Nododd yr Aelodau hefyd fod cyflenwad yn bregus a gofynnion nhw a oes opsiwn i gynnig mentrau bwrsari neu ariannol megis y rhai a gynigir ym maes nyrsio. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol fod, yng Nghaerdydd, 6 aelod o staff eu heilio bob blwyddyn, gyda'r ymrwymiad i aros yng Nghaerdydd am 2 flynedd ar ôl cymhwyso; esboniodd ei fod am dyfu'r cynllun ac ychwanegodd fod Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynnig bwrsari.

Mewn perthynas ag Ataliaeth, gofynnodd yr Aelodau pam mae niferoedd yn codi ac yw hyn yn cael ei asesu. Dywedodd swyddogion nad yw Caerdydd yn allgraig o ran niferoedd plant sy'n derbyn gofal. Gan edrych ar ddinasoedd craidd mae sawl tuedd diddorol y mae angen eu harchwilio ond nid yw'r sefyllfa yn arferol o ran gweddill y DU. Gan edrych ar wasanaethau ataliol, mae tua 200 o wahanol wasanaethau, nid yw'n bosibl eto i asesu pa mor effeithiol y maen nhw gan nad ydynt wedi'u cyfuno ar hyn o bryd. Mae'n bosibl edrych ar wasanaethau unigol ond nid fyddai hyn yn dangos pwy nad yw'n defnyddio'r gwasanaethau ac nid yw'n cynnwys atgyfeiriadau; mae adnoddau mae angen eu hintegreiddio, ond mae hyn yn lot o waith. Byddai'r agwedd partneriaeth/Cyngor cyfan at atal yn helpu gyda recriwtio, cadw a mesurau perfformiad. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet, yn unol â dinasoedd cymharol megis Newcastle, Lerpwl a Nottingham, fod cynnydd o ran Arwyddion Diogelwch. Mewn perthynas â Chymru gyfan, Caerdydd oedd 9/22 nesaf i Abertawe fel y byddid yn disgwyl.

Gofynnodd yr Aelodau a oes unrhyw gynlluniau am unrhyw fwy o Ganolfannau Plant Integredig a dywedodd Swyddogion y byddent yn dod yn ôl gydag ateb cadarn ar Ganolfannau Plant Integredig ond dywedodd fod modelau ehangach yn cael eu hystyried megis modelau Hyb a Chanolfan Ieuentid fydd ar agor 6 dydd yr wythnos ac a fydd â ystod ehangach a chynaliadwy o wasanaethau.

Gofynnodd yr Aelodau, gan gyfeirio ar y 6 pherson wedi'u heilio sy'n mynd i'r Brifysgol bob blwyddyn, a ydynt i gyd yn pasio ac a yw unrhyw ohonynt yn gadael y gwasanaeth. Dywedodd y swyddogion eu bod i gyd yn pasio a'u bod yn aros n y gwasanaeth am swm sylweddol o amser. Ychwanegodd swyddogion fod 140 o weithwyr cymdeithasol llawn amser ac bod dim ond 13 ohonynt wedi gadael y llynedd a hynny am resymau dilys.

Gofynnodd yr Aelodau lle y byddai'r Cartrefi i Blant yn cael eu lleoli a pha mor fawr y bydden nhw. Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet ei fod am iddynt fod yn gartrefi teuluol iawn gyda chymuned cofleidiol ac ysgolion lleol. Ar hyn o bryd mae 4 rhai newydd yn cael eu hystyried ledled Caerdydd ond nid oes modd gwneud y lleoliadau'n gyhoeddus eto. Ychwanegodd yr Aelodau na ddylid anghofio am ogledd y Ddinas c chytunodd swyddogion gan ddweud bod anghenion a nodwyd yn cyfieithu i gyflawni. Nodon nhw'r adeilad newydd yng ngogledd Caerdydd a phwysleision nhw'r pwysigrwydd sy'n ymwneud â'r Cyngor yn bod yn berchen ar unrhyw gyfleuster newydd ac yna'r comisiynu'r gwasanaeth a ddarparwyd.

Gofynnodd yr Aelodau a oes unrhyw waith ar y gweill gyda darparwyr Addysg Uwch ac Addysg Bellach o ran datblygu cyrsiau sy'n addas i anghenion, cyrsiau sy'n hyblyg i fyfyrwyr hŷn a chydweithredu gyda'r Brifysgol Agored. Credodd y swyddogion fod

hyn yn bwynt da iawn ond nid yn unig ar gyfer cyrsiau gwaith cymdeithasol ond hefyd ar gyfer rolau cymorth i deuluoedd ar lefelau gwahanol.

Gofynnodd yr Aelodau a oes unrhyw enghreifftiau penodol o sut mae'r Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant wedi effeithio ar y ffordd mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Rhoddodd yr Aelod Cabinet enghraifft sef iddi ymweld â'r Gwasanaeth Byw'n Annibynnol o ganlyniad i gŵyn wedi'i dderbyn am aelod staff. Roedd y tîm i gyd yno ac roeddent wedi rhannu'r holl gwynion y derbynion nhw. Pan ddechreuodd CBA gydymffurfio â'r Ddeddf bu llais a dewis mwy a chynnig mwy rhagweithiol. Roedd wedi dechrau gydag 1 tîm a nawr mae nifer o dimau ac mae newid mawr wedi bod o 1 o bob 4 i gyfanrwydd y bobl sy'n derbyn y gwasanaeth. Gofynnodd yr Aelodau pm mae angen deddfwriaeth sgubo eang i adfywio gwasanaeth gan y dylai gwelliant parhau yn y gwasanaeth alluogi hyn beth bynnag. Credodd yr Aelod Cabinet fod y ddau beth yn helpu, yn achos y CBA, dechreuodd y gwasanaeth yna ychwanegodd cyflwyno'r Ddeddf ysgogiad hyd yn oed mae deddfwriaeth yn cymryd amser i droi'n wasanaeth da. Credodd yr Aelodau y gallai fod yn gynamserol ddod i'r casgliad bod y Ddeddf wedi gwneud gwahaniaeth i wasanaethau, dywedodd swyddogion fod y fframwaith statudol rydych yn gweithio o fewn iddo'n bwysig iawn, mae angen amgylchedd goddefol i weithio ynddo hefyd ac mae angen agwedd newydd ar hyn, mae'r Ddeddf wedi galluogi hyn i ddigwydd.

Trafododd yr Aelodau a yw'r gwasanaeth yn archwilio'n rhagweithiol y gwaith o adleoli staff a dywedwyd wrthynt fod rhaglen hyfforddi newydd lle y gallai pobl gael teimlad o'r gwasanaeth ac yna'n gwneud cais am swydd. Wedi cael cwestiwn am brentisiaethau, dywedodd swyddogion na chynigir hyn gan mai cymhwyster gradd y mae gwaith cymdeithasol.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y prif heriau ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion ac yn benodol 'Cynaliadwyedd y farchnad ofal nyrsio a phreswyl - gweithio gyda darparwyr i weithredu gofynion Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016'. Nododd yr Aelodau y dywedwyd wrthynt y mis diwethaf nad oedd hyn yn brif risg mwyach. Esboniodd yr Aelod Cabinet fod y risg yn lleihau ond bydd bob amser yn risg o ganlyniad i dibyniaeth ar ddarparwyr marchnad. Mae Amanda Phillips wedi tyfu trefniadau partneriaeth, mae perthnasau da yng Nghaerdydd nawr; yn flaenorol roedd dim ond 13 darparwr a allai wneud cais, erbyn hyn mae mwy na 60, fe'i ystyriwyd yn her ond un y gellir ei rheoli.

Nododd yr Aelodau y gwaith partneriaeth gydag lechyd a gofynnon nhw a yw'r gwasanaethau'n cyfathrebu'n fwy gyda'i gilydd nawr. Dywedodd yr Aelod Cabinet y gellir gweld hyn yn digwydd nawr lle nad oedd yn amlwg o'r blaen. Mae partneriaethau strategol yn gyrru integreiddio ymlaen a'r effaith yw darpariaeth well. Mae angen gwasanaethau wedi'u cyd-leoli gwir gydag lechyd, byddai'n cymryd amser i hidlo i lawr i lefel weithredol. Mae bellach cyfarfodydd Cyfarwyddwr rheolaidd ym mhob awdurdod lleol am y tro cyntaf.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y gwasanaeth CBA a gofynnon nhw sut y gellir cyrraedd pobl y mae angen y gwasanaeth arnynt nad ydynt yn ei ddefnyddio. Dywedwyd wrth yr Aelodau nad yw'r gwasanaeth yn gyhoeddus hyd yn hyn gan fod pryderon am reoli mynediad. Mae'r gwasanaethau'n gweithio, yn cadw pobl yn annibynnol yn eu cartrefi am hirach, yr awydd yw tyfu'r gwasanaeth ac yna byddai'r cyhoedd yn cael gwybod amdano. Ychwanegodd swyddogion fod rhaglen allweddol o waith ar Wella Gwasanaethau i Oedolion sy'n cynnwys gweithio gyda meddygon teulu ar ragnodi

cymdeithasol gan fod nifer sylweddol o bobl sy'n mynd i feddygfeydd heb anghenion meddygol. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet fod y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion wedi cael cyflwyniad ar ddechrau'r flwyddyn ar adolygiad o wasanaethau cymunedol, yn eu gwneud i ganolbwyntio'n fwy ar y person a dileu'r bar cymhwysedd.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd meddwl a gofynno nhw a oes unrhyw ffordd o edrych ar yr effaith ar unigedd ac ynysiad. Esboniodd yr Aelod Cabinet fod y Cynllun Ardal mewn perthynas â'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn dangos yr hyn gaiff ei wneud o ran unigedd, mae angen newid cymdeithasol o ran teulu, ffrindiau a chymdogion a mwy o gyfrifoldeb o ran cymorth cymunedol. Atgoffwyd yr Aelodau am y project Good Gym a ariannwyd trwy'r Gronfa Gofal Integredig, gwaith Age Connect a Chyfleoedd Dydd a'r angen uchel am Ganolfannau Dydd.

Gofynnodd yr Aelodau sut caiff gofalwyr ifanc eu nodi mewn ysgolion a pha gymorth a chyingor sy'n cael eu rhoi i ysgolion. Dywedodd swyddogion fod tîm dynodedig sy'n weithio ar gwblhau'r Strategaeth Gofalwyr Ifanc, mae gwaith hefyd yn cael ei wneud gyda'r YMCA. Nodwyd bod mwy i'w wneud ond roedd yn flaenoriaeth.

Gofynnodd yr aelodau am yr hyn sy'n digwydd gyda rhestr aros CAHMS a dywedwyd wrthynt fod nifer o faterion/heriau sylweddol gan gynnwys gweithio tuag at fodel meddygol. Mae'r bwrdd Iechyd yn symud CAHMS i'r BIP a chaiff ei alinio gyda'r Gwasanaethau Plant. Caiff gwasanaeth newydd ei greu a fydd yn cynnwys anghenion emosiynol.

Gan gyfeirio at berfformiad plant sy'n derbyn gofal ym maes addysg, nododd yr Aelodau fod perfformiad ar gyfnod allweddol 2 wedi gostwng o 18.4% i 12% a gofynnon nhw pam mae hyn wedi digwydd. Dywedodd swyddogion y byddent yn llunio ymateb i hyn, mae ymateb wedi'i baratoi ar gyfer y Pwyllgor Cyngori Rhianta Corfforaethol. Dywedwyd wrth swyddogion fod y profion wedi newid felly mae angen gwirio'r adroddiad. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y canlyniadau'r un fath ledled y wlad.

Nododd yr Aelodau fod canran y bobl sy'n gadael gofal sy'n profi digartrefedd bob blwyddyn rhwng 17 a 21% a gofynnon nhw beth oedd yn cael ei wneud i fynd i'r afael â hyn. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod gwaith yn cael ei wneud ar sut mae digartrefedd yn cael ei adrodd. Mae pobl mewn fflatiau dros dro ac o ran Dangosyddion Perfformiad mae'r rhain dal wedi'u cynnwys yn yr ystadegau Digartrefedd, felly mae'r ystadegau'n edrych yn waeth nag y maen nhw. Dywedwyd wrth yr Aelodau nad fydd hyn yn newid oni bai y caiff y Dangosyddion Perfformiad a sut maent yn cael eu cofnodi a'u casglu eu newid. Ychwanegodd swyddogion fod angen i wybodaeth fod yn go iawn a gellir dod â dadansoddiad ystadegau gerbron pwyllgor arall, credodd swyddogion, cyhyd â'u bod yn gwybod bod yr hyn eu bod yn ei wneud yn iawn ac yn gall, eu bod yn hyderus. Ychwanegodd y swyddogion hefyd nad oes pobl mewn llety Gwely a Brechwast yng ac mai Caerdydd yw'r unig awdurdod lleol yn y sefyllfa honno. Roedd yr Aelodau'n falch o glywed hyn a chredon nhw y gellir cyflwyno'r dadansoddiad yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion yn y dyfodol.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y Dangosydd Perfformiad sy'n ymwneud â phobl sy'n gadael y carchar a chredo nhw y dylid cynllunio ar gyfer hyn. Esboniodd y swyddogion fod

angen dosbarthu person ifanc sydd yn y carchar yn berson digartref ac mae'n sgiwio'r ffigurau. Pan fônt yn barod i gael eu rhyddhau byddai cynllun ar waith i'w hintegreiddio yn y gymuned.

Gofynnodd yr Aelodau sut y gellir monitro pobl sy'n gadael gofal sy'n symud o un cartref i gartref arall. Dywedodd y swyddogion mai nifer fach iawn yw hyn, mae pobl yn gwneud dewisiadau ac nid oes eisiau tenantiaethau ar rai ohonynt. Byddai'r bobl hyn yn dal i gael eu cefnogi a chael mynediad at CP a'r porth ieuenctid. Pan fônt yn barod i ddechrau tenantiaeth byddent yn derbyn cymorth.

Nododd yr Aelodau mai'r Cyngor sy'n gyfrifol am bobl sy'n gadael gofal tan eu bod yn 21 oed a 25 oed os ydynt mewn addysg o hyd.

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai crynodeb gweithredol o'r adroddiad ar gael i'r cyhoedd a dywedwyd wrthynt y byddai un ac y byddai'n cael ei ddatblygu gyda chymorth pobl ifanc.

Nododd yr Aelodau yr ymateb gwael i'r arolwg a gofynnon nhw beth y gellir ei wneud i fynd i'r afael â hyn. Cytunodd yr Aelod Cabinet ei bod yn her cael y broses yn iawn, ond bod rhanddeiliaid, staff a phanel y dinasyddion i gyd yn rhan o'r adroddiad ac mae'n adrodd hanes/sefyllfa go iawn y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghaerdydd.

CYTUNWYD – bod y Cadeirydd, ar ran y pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet i gyfleu sylwadau'r pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.55 pm